❖ Ymestyn fy Nghalon

O Dduw, ymestyn fy nghalon
fel y bydd yn ddigon llydan
i dderbyn mawredd dy gariad di.
Ymestyn fy nghalon
er mwyn i mi fedru derbyn iddi bawb drwy'r byd
sy'n credu yn Iesu Grist.
Ymestyn fy nghalon
er mwyn i mi dderbyn y rhai nad ydynt yn ei adnabod,
gan fy mod, o'i adnabod ef, yn gyfrifol amdanynt.
Ymestyn fy nghalon
er mwyn i mi dderbyn iddi
y rhai nad ydynt yn ddymunol yn fy ngolwg,
a'r rhai nad wyf am gyffwrdd â'u dwylo;
yn enw Iesu, fy Ngwaredwr,
a ddaeth i garu a chyffwrdd â phawb.

❖ Yn Bobl Barod Iddo

Diolchwn i ti, O Arglwydd, am roi i ni dy Fab Iesu Grist,
a ddaeth atom yn ostyngedig yn nhlodi Bethlehem.
Wrth i ni baratoi i ddathlu ei eni,
glanha ein calonnau a'n bywydau
er mwyn i ni allu ei groesawu'n llawen
yn Waredwr ein bywyd,
a phan ddaw mewn gogoniant
y byddwn yn bobl barod iddo ef,
sy'n byw ac yn teyrnasu gyda thi a'r Ysbryd Glân
byth heb ddiwedd.

Enid Morgan